


# Atodiadau

**Tabl 1**

Demograffeg y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr ymchwil, fesul swydd a lleoliad

Lleoliad	Swydd	Health Board Area								Cyfansymiau
		AB	Betsi Cad	C&V	CTM	Hywel Dda	Powys	Bae Abertawe	Cymru	
<b>Mewn ysbyty (*cyn COVID)</b>	Rheolwr Nyrsys Cyswllt Rhyddhau	1			2			2		5
	Rheolwr Ward							1		1
	Therapydd Galwedigaethol*			1						1
	Rheolwr Tai/Datblygu Anabledau Dysgu ac Iechyd Meddwl (GIG)	1	1							2
	Cydlynnydd Llif Cleifion	1								1
	Uwch Ymarferydd/ Rheolwr Rhyddhau o'r Ysbyty (Gwas Cym)				2			1		3
	Swyddog Rheoli Gofal (Gwas Cym)							1		1
<b>Yn y Gymuned</b>	Arweinydd Tîm/Rheolwr Gwasanaethau Oedolion (gan g. CMHT)	3	1	1						5
	Uwch/Arweinydd Tîm/ Rheolwr Tai ALI	4	5	2	2	1		2		16
	Ymarferydd/ Swyddog Atal Tai ALI			1						1
	Comisiynydd ALI/GIG (GCT)	1							1	2
	Rheolwr/ Swyddog Tai/ Cydlynnydd Gwasanaeth RSL	2	1	2	1	1				7
	Rheolwr Trydydd Sector		1			2		1	3	7
	Gweithiwr Cefnogi/ Swyddog Trydydd Sector			1						1
		<b>13</b>	<b>9</b>	<b>8</b>	<b>7</b>	<b>4</b>	<b>-</b>	<b>8</b>	<b>4</b>	<b>53</b>



**Tabl 2**

Nifer yr ymatebwyr a nododd mewn cyfweiliadau 'beth sy'n gweithio'n dda' wrth gynllunio rhyddhau

Beth sy'n gweithio'n dda	Yn y Gymuned	Tai a Gofal Cymdeithasol*
Swyddi cyswllt tai iechyd meddwl penodedig/arbenigol	7	2
Mynediad i wasanaethau ac adnoddau a gysylltir yn dda	5	5
Swyddi iechyd/a ariennir ar y cyd gysylltiedig â thai	1	1
Gwaith cydlynus/cysylltiadau da rhwng lechyd a Thai	1	3
Dull Tîm Amlddisgyblaeth	-	9
Gwasanaethau cymunedol sy'n cymryd rhan yn y TADd/cynllunio rhyddhau	4	1
Cael Gweithwyr Cymdeithasol/Timau profiadol a sefydledig	2	3
Gwaith aml-asiantaeth	4	4
Swyddi/timau tai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd mewn wardiau/ysbytai	1	3
Cynllunio rhyddhau sy'n cynnwys cyfathrebu da/rhannu gwybodaeth	6	10
Cynnwys y claf yn llawn a deall eu hanghenion	7	7
Rhyddhau lle mae cynllunio a pharatoi wedi dechrau'n gynnar	7	5
Mynediad i nodiadau/systemau TG eich gilydd	-	3
Asesu a chyngor wyneb yn wyneb	1	-
Asesiadau therapi galwedigaethol	2	-
Bandiau blaenoriaeth yn y system dyraniadau tai	1	-
Llety cam i lawr	1	-
Y Gronfa Gofal Canolraddol (ar gyfer addasiadau)	1	-
Cydgysylltwyr Llif Cleifion	-	2
Darparu dyddiadau rhyddhau bras gan feddygon ymgynghorol	-	1
Cael pwynt cyswllt unigol clir	1	-
Yr 'Asesiad Beth sy'n Bwysig'	-	1

\*mae hyn yn cynnwys rôl tai arbenigol a ariennir ar y cyd neu gan iechyd




**Tabl 3**

Nifer yr ymatebwyr sy'n nodi beth allai weithio'n well/gwneud y broses yn haws wrth gynllunio rhyddhau

Beth allai weithio'n well/gwneud y broses yn haws	Yn y Gymuned	Tai a Gofal Cymdeithasol*
Mwy o opsiynau llety	8	3
Cyd-ddealltwriaeth o Bolisiâu a Gweithdrefnau a Rheolau a Rheoliadau eich gilydd	16	6
Nodi anghenion o ran tai	1	1
Hysbysiad cynnar/wedi'i awtomeiddio o'r angen am ymyriad tai/cyngor ar dai	15	5
Rhannu cyfathrebu/gwybodaeth	9	8
Gwaith cydlynus rhwng lechyd a Thai	3	2
Cael pwynt cyswllt unigol clir o fewn iechyd	5	2
Dyletswydd gofal gyfartal i sicrhau bod deilliannau rhyddhau'n gadarnhaol	1	-
Cael swyddi cyswllt tai penodedig/arbenigol	5	-
Cael cyfranogiad mewn TADd/cynllunio rhyddhau	7	2
Deall anghenion y claf yn llawn	6	2
Hyfforddiant a rennir a chydfuddiannol rhwng lechyd a Thai	-	3
Glynu wrth lwybr/protocol cydnabyddedig	8	1
Pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau	-	3
Mwy o gyllid (neu gyllid tymor hwy) / staff	6	10
Darpariaeth/mwy o ddarpariaeth llety cam i lawr	1	3
Rheoli addasiadau a grantiau	1	-
Ymdrin â'r materion cymdeithasol sy'n effeithio ar lesiant cyffredinol	1	-
Integreiddio gwell (e.e. systemau TG)	4	2
Gweithio i'r un fframweithiau, polisiâu a chanllawiau	-	1
Mwy o opsiynau pecyn gofal	-	1
Dysgu o ryddhau a fu'n anniogel/gwael	1	-
Llai o bwysau i ryddhau gwelyau mewn ysbytai	-	1
Mwy o adnoddau IM cymunedol sy'n atal derbyn yn ddiangen	-	1

\*mae hyn yn cynnwys rôl tai arbenigol a ariennir ar y cyd neu gan iechyd



# Astudiaethau achos

## Astudiaeth Achos A

Rwy'n Rheolwr Ward, ar ward iechyd meddwl swyddogaethol i bobl dros 65 oed. Rydym yn trin ac yn sicrhau bod gan bob un sy'n gadael y ward gefnogaeth priodol o ran tai. Rydym yn cynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd i drafod anghenion a ragwelir. Rwy'n cefnogi staff i ystyried y rhai y mae angen cymorth parhaus arnynt, ac yn gweithio i sicrhau bod hynny'n dechrau wrth i'r claf gael ei dderbyn.

Mae rhyddhau cleifion yn hylifol iawn ar hyn o bryd gan y gall cyflwyniad y claf a'r anghenion dilynol newid y llwybr atgyfeirio'n aml. Rydym yn atgyfeirio at wasanaethau cefnogaeth parhaus i ddilyn i fyny os bydd angen ac rydym hefyd yn darparu pecyn o waith papur i asiantaethau eraill, i gefnogi eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys proffil 'dyma fi', gwybodaeth am hoff a chas bethau'r claf a beth yw ei anghenion.

## Astudiaeth Achos B

Fy rôl flaenorol oedd rheoli nyrsys cyswllt rhyddhau cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd a byddwn yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol mewn gwahanol leoliadau, er y dylai cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty fod yn gyson. Dylem gynllunio rhyddhau o'r pwynt derbyn a chynllunio ar gyfer dychwelyd adref bryd hynny, yn hytrach nag aros nes bod y person yn feddygol iach i gael ei ryddhau. Mae'r sefyllfa'n gwella ac mae'r rhyddhau'n cael ei ystyried yn gynharach ond nid yn aml ar y pwynt derbyn, pan fydd y wybodaeth orau am y sefyllfa gartref ar gael.

Gall cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty ddibynnu ar bwy sy'n gyfrifol am ofal a chefnogaeth barhaus ar adeg eu rhyddhau. Er enghraifft, mae rhai cleifion nad oes angen gofâl â chymorth pellach arnynt gan y gwasanaethau iechyd, ond sydd efallai â chyfranogiad parhaus gan Weithiwr Cymdeithasol os oes angen gofâl arnynt gartref. Yn yr un modd, i rai o'r rhai y mae angen cymorth tai arnynt, mae'n bosib na fydd angen cefnogaeth barhaus arnynt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.



## Astudiaeth Achos C

Fel Adran Tai, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, ac mae gennym Swyddog Atal Digartrefedd wedi'i ymwreiddio yn lleoliad yr ysbyty, er mwyn nodi cleifion y byddant o bosib yn cael eu rhyddhau er nad oes ganddynt aneddiad sefydlog, neu nad yw eu llety bellach yn addas. Mae'r Swyddog yn gweithio gyda'r claf a Therapi Galwedigaethol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a gweithwyr Iechyd Meddwl proffesiynol i gynorthwyo wrth gynllunio symud.

Gall hyn fod naill ai i lety mwy addas, neu i'w gartref presennol gael ei wneud yn addas, neu i'w gynorthwyo i gyflwyno eu hunain fel rhywun sy'n ddigartref er mwyn iddynt gael eu ystyried ar gyfer llety brys ac atal blocio gwelyau mewn ysbytai.


## Astudiaeth Achos Ch

Mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn cynnig enghraifft ddangosol o effaith cyfathrebu gwael mewn trefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

"Nid oedd y cyfathrebiadau ag aseswr llety yr Awdurdod Lleol yn dda. Dim ond drwy ddefnyddio negeseuon testun neu 'alwadau ffôn' yr oedd yn cael ei wneud. Nid yw hyn yn dangos llywodraethu da o gwbl gan nad oes llwybr archwilio clir (o ba drefniadau a gynigiwyd, a drafodwyd neu y cytunwyd arnynt).

Roedd yr asesydd yn awyddus i gael (fy mam) wedi'i ryddhau, gan ddweud wrthym fod angen ei gwely yn yr ysbyty, er i ni wybod yr oedd gwelyau gwag (yno) eisoes. Gofynnwyd i mi godi fy mam o un lleoliad, a mynd â hi i leoliad dros dro arall, gyda dim ond 30 munud o rybudd. Pan ddywedais na allwn wneud hynny gan fy mod yn gweithio, gofynnwyd i mi a oedd gan fy mam arian gyda hi fel y gallai dalu am dacs rhwng y ddau leoliad, pellter o tua 40 milltir ac ar ôl iddi fod yn yr ysbyty gyda niwmonia am 10 wythnos!

Pan ddywedais nad oedd ganddi ei phwrs, gofynnwyd wedyn i mi gwrdd â'r asesydd yn nhŷ fy mam, gyda'i phwrs, ei dillad a bwyd y gallai fod eu hangen ar fy mam, eto gan ddiystyru'r ffaith fy mod yn gweithio a bod fy mam wedi bod yn yr ysbyty am 10 wythnos".



# Astudiaethau achos cyflwyno gwasanaeth

Nodwyd yr astudiaethau achos model gwasanaeth a ganlyn fel enghreifftiau o arfer da lle bu i sefydliadau weithio ar y cyd i wella sut mae cyngor ar dai ac ymyriadau gysylltiedig â thai'n digwydd. Maent hefyd yn dangos sut mae cyrff tai yn y gymuned yn cysylltu i mewn i'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn ffordd amserol.

## Astudiaeth achos A

### Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Gweithwyr Cyswllt Tai, Cydgysylltydd Llif Cleifion a Swyddog Cymorth Tai'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Comisiynodd rhai o'r Awdurdodau Lleol ar draws 5 sir Gwent Weithwyr Cyswllt Tai (wedi'u henwi'n wahanol mewn gwahanol leoliadau) drwy'r Grant Cymorth Tai ac fe'u darparwyd gan bartner trydydd sector.

Lleolir y swyddi (cyn Covid) yn yr unedau iechyd meddwl ac maent yn darparu cyswllt rhwng y wardiau ac Adrannau Tai'r Awdurdodau Lleol, gan ddarparu cyngor ar dai, cynorthwyo gydag asesiadau, a chefnogi trosglwyddiad llawn cysur pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau.

Gan gydnabod nad oedd rhai Awdurdodau Lleol wedi comisiynu'r swyddi uchod, ariannodd BIPAB Gydgyssylltydd Llif Cleifion i sicrhau darpariaeth lawn ledled Gwent ar gyfer yr holl gleifion iechyd meddwl. Mae'r swydd yn canolbwyntio ar bob agwedd ar dai yn y broses cynllunio rhyddhau ac yn cefnogi'r achosion mwy cymhleth.


Mae Cymdeithas Tai yn darparu gwasanaeth cymorth symudol gysylltiedig â thai ledled Casnewydd, ac mae un o'r tîm wedi cael ei symud i Dîm Rhyddhau o Ysbyty y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gyfer pob mater gysylltiedig â thai sy'n ymwneud â chynllunio rhyddhau.

## Astudiaeth achos B

### Caerdydd

Swyddog Tai Atal a'r Tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf.

Wedi'i ariannu gan y Bwrdd Iechyd ond ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol, mae'r Swyddog Tai Atal yn darparu cyswllt tai penodedig rhwng unedau iechyd meddwl ac Adran Tai'r Awdurdod Lleol. Mae'r swydd yn darparu gwasanaeth tebyg i'r Gweithwyr Cyswllt Tai sydd wedi'u crybwyll uchod.



Gwnaeth yr Awdurdod Lleol ariannu a chyflogi'r Tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf a saif o fewn y Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau (Tai a Chymunedau) ac sy'n rhan o'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol. Gan eu bod yn yr ysbyty ac yn gweithio fel rhan o'r Tîm Rhyddhau Integredig, maent yn cysylltu pa wasanaethau bynnag sydd eu hangen yn y gymuned ar gyfer y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Maent yn cysylltu ag amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys opsiynau tai, landlordiaid, ailalluogi, darparwyr cymorth peripatetig, ac iechyd yr amgylchedd (fel enghreifftiau).

## Astudiaeth achos C

### Bro Morgannwg

Gweithwyr Cyswllt Tai, Uwch Therapydd Galwedigaethol a Chydgysylltwyr Rhyddhau

Mae sefydliad trydydd sector yn darparu'r un Gweithiwr Cyswllt Tai ag a ddisgrifir uchod, gan bontio'r rhyngwyneb iechyd a thai rhwng y wardiau iechyd meddwl ac Opsiynau Tai Bro Morgannwg.

Mae Uwch Therapydd Galwedigaethol a gyflogir gan yr Adran Tai'n rheolwr llinell i ddau Gydgylltydd Rhyddhau ar gyfer wardiau anghenion cyffredinol trigolion y Fro. Mae'r Tîm yn darparu cyngor sy'n gysylltiedig â thai a'r cyswllt hanfodol rhwng y wardiau ac Opsiynau Tai. Mae'r Cydgysylltwyr Rhyddhau'n ymdrin â'r mwyafrif o'r achosion, gan adael yr Uwch Therapydd Galwedigaethol i ddarparu cymorth mwy arbenigol ar gyfer achosion cymhleth.


## Astudiaeth achos Ch

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rheolwr Datblygu

Ariennir y swydd gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n darparu swyddogaeth arbenigol sy'n gysylltiedig â thai i'r wardiau iechyd meddwl ar draws ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Gan gydweithio'n agos gyda'r wardiau drwy ddull tîm amlddisgyblaethol (sef gweithio gyda thua 17 o achosion yr wythnos), mae deiliad y swydd yn cymhwyso ystod helaeth o wybodaeth a phrofiad blaenorol, gan roi ystyriaeth i adnoddau cymunedol a darpariaeth tai i helpu wrth hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn effeithiol.

Mae'r rôl hefyd yn cynnwys elfen o hyfforddiant gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau staff ysbytai a staff tai. Eglurodd deiliad y swydd bwysigrwydd 'gwsgo dwy het, iechyd a thai'.



## Sylwadau ychwanegol ar ddatblygu'r diffiniad cyngor ar dai

Er bod y diffiniad a ddefnyddiwyd gennym yn ein hymchwil wedi'i dderbyn bron yn unfrydol gan gyfweleion ac ymatebwyr yr arolwg, gwnaethom hefyd dderbyn y sylwadau defnyddiol a ganlyn ar sut y gellir gwella'r diffiniad.

*'... pwysleisio'r angen am hyblygrwydd a phersonoli'r cyngor i ddiwallu anghenion pob person'*

*'... cymorth i landlordiaid yn enwedig trwy gydol y pandemig Covid'*

*'Byddwn i'n newid y term cartref i lety. Nid oes gan bawb gartref fel y cyfryw'*

*'... a chynnwys diogelu, llety diogel'*

*'... pwyslais ar gyngor arbenigol a sicrhau bod yr wybodaeth yn darparu darlun realistig o opsiynau tai'*

*'... cytuno â'r diffiniad, ond yma yn sicr nid yw wedi'i integreiddio, ond rwy'n cytuno y dylai fod'*

Teimlai cyfweleion eraill y dylai cyngor hefyd gynnwys canllawiau ynghylch addasrwydd ac argaeledd tai, dylid tynnu sylw at gostau cynnal tenantiaeth, neu gartref a hefyd darparu gwybodaeth am grantiau a gwasanaethau cefnogi a allai fod ar gael.

